**12.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **16C48G** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr David Morris**
**c/o J. S. Allan Architect**
**3 Stad Castellor**
**Cemaes Bay**
**Ynys Môn**
**LL67 0NP**

| Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn | Full application for the erection of an agricultural shed at |
| --- | --- |

Ger y Bryn, Bryngwran



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Gwrthod

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ar gais yr Aelod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle ym mhlwyf Bryngwran ger yr eiddo o'r enw 'Ger y Bryn' sydd oddeutu 200m i'r gogledd o Fryngwran. Ceir mynediad iddo trwy ffordd sy'n gwasanaethu Ger y Bryn sydd â chyffordd gyda'r A5 sy'n arwain tuag at Gaergybi.

Mae'r cynnig yn golygu codi sied amaethyddol ar dir yn Ger y Bryn, Bryngwran.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y materion allweddol i'w hystyried yw a oes digon o gyfiawnhad dros godi sied arfaethedig i ddibenion amaethyddol a'r effaith weledol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 42 – Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoli
Polisi D29 – Dylunio

**Y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Canllawiau Rheoli Cyffredinol
Polisi GP2 – Dylunio

**NCT 6**: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy

**Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 4 Chwefror 2011**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol - Wedi gofyn am i'r cais gael ei gyflwyno i'r pwyllgor cynllunio. Ei resymau yw bod gan yr ymgeisydd rif daliad amaethyddol ar gyfer y daliad hwn. Oni bai bod gan yr ymgeisydd sied, ni fedr brynu anifeiliaid (lloeau) ar gyfer ei ddaliad. Dangosir y sied arfaethedig fel adeilad da byw/storio.

Cyngor Cymuned - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dŵr Cymru – Sylwadau

Iechyd yr Amgylchedd – Dim sylwadau

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn dwy ffordd. Gosodwyd rhybudd ger y safle ac ysgrifennwyd at ddeiliad eiddo cyfagos. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 5 Gorffennaf 2012. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd yr adran wedi derbyn unrhyw sylwadau.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

16C48 – Codi anedd ar dir yn Penrallt, Bryngwran – Cymeradwywyd 13/07/1989

16C48A – Codi byngalo ar dir yn AO 6600, Penrallt, Bryngwran – Cymeradwywyd 17/07/1989

16C48B - Dileu amod (10) (amod person lleol) o ganiatâd cynllunio 16/C/48 ar dir yn Penrallt, Bryngwran - Caniatawyd 16/12/1997

16C48C – Cynlluniau manwl diwygiedig ar gyfer codi byngalo a garej ddwbl ar blot ger Penrallt, Bryngwran – Cymeradwywyd 15/10/1999

16C48D – Cais amlinellol i godi annedd newydd ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau a gosod tanc septig newydd ar dir wrth Ger Y Bryn, Bryngwran – Gwrthodwyd 08/12/2005

16C48E – Cais amlinellol i godi anedd ynghyd ag aeiladu mynedfa newyd i gerbydau a gosod tanc septig ar dir wrth Ger Y Bryn, Bryngwran – Gwrthodwyd 02/02/2006

16C48F – Cais llawn i godi adeilad amaethyddol ar dir yn Ger Y Bryn, Bryngwran – Gwrthodwyd 10/05/2012

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Cyfiawnhad ar gyfer y cynnig -** Derbynnir yr egwyddor gyffredinol o ddatblygu i ddibenion amaethyddol o fewn polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol ar yr amod y gellir cyfiawnhau'r datblygiad. Mae derbynioldeb y datblygiad arfaethedig felly yn dibynnu ar feini prawf rheoli datblygu manwl. Mae'r cynnig yn golygu codi adeilad amaethyddol (a fydd yn mesur 10.2m (hyd) x 10.2m (lled) x 3.9 (uchder y grib). Mae'r daliad oddeutu 2.3 hectar (5.6 o erwau) ac ar gyrion Bryngwran. Pwrpas y sied fe ddywedir, yw i gadw defaid / lloeau a phorthiant / gwair.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan yr ymgeisydd unrhyw dda byw, ond mae'n bwriadu cynyddu'r daliad yn y dyfodol. Rwy'n credu fod y datblygiad yn gynamserol ac nad oes cyfiawnhad ar hyn o bryd ar gyfer adeilad amaethyddol yn y lleoliad hwn.

**Effaith weledol** - Byddai'r adeilad arfaethedig o fewn cae agored, peth pellter i ffwrdd o adeiladau eraill ac ystyrir y byddai'n ymwthiad annerbyniol i'r dirwedd.

**7. Casgliad**

Ar ôl ystyried yr uchod a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, rwy'n argymell gwrthod.

## 8. Argymhelliad

**Gwrthod**

Nid yw'r ymgeisydd wedi dangos defnydd amaethyddol o'r uned na bod angen yr adeilad yn rhesymol o ran ei faint, ei leoliad a'i ddefnydd mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd amaethyddol o'r uned. Mae'r cynnig yn gynamserol mewn perthynas â'r anghenion a ddatganwyd gan yr ymgeisydd ac mae'n tynnu'n groes i Bolisi 1 Cynllun Lleol Ynys Môn a'r cyngor ym Mholisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011).

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y byddai'r cynnig yn ddatblygiad a fyddai'n nodwedd ymwthiol na fyddai modd ei chyfiawnhau yn y dirwedd ac y byddai'n andwyol i gymeriad yr ardal.

**12.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **19LPA959/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Education)**
**c/o Mr Barry Allen**
**Property Section**
**Sustainable Development**
**Isle of Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**LL77 7TW**

Cais llawn ar gyfer lleoli dosbarth symudol yn

Full application for the siting of a mobile classroom at

Morswyn County Primary School, Cyttir Road, Holyhead, LL65 2TF



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cyflwynir y cais hwn gan, ac ar ran y Cyngor ar dir sy’n eiddo iddo.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae’r safle yn rhan o dir Ysgol Gynradd Morswyn.  Mae’r ysgol oddi ar Ffordd Cyttir yng Nghaergybi.

Mae’r cynnig yn cynnwys gosod ystafell ddosbarth symudol newydd ar ran o dir yr ysgol i’w defnyddio ar gyfer plant cyfnod sylfaen.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y materion allweddol i’w hystyried yw’r cyd-destun polisi, yr effaith ar yr ardal leol ac ar fwynderau eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 17 – Adloniant a Chyfleusterau Cymunedol
Polisi 42 – Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoli
Polisi D29 – Dyluniad
Polisi F7 – Defnydd Cymunedol o Ysgolion

**Y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Canllawiau Rheoli Cyffredinol
Polisi GP2 – Dylunio

**Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 4, Chwefror 2011**

**NCT 12**: Dylunio

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Cyngor Tref – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Dŵr Cymru - Yn argymell caniatáu gydag amodau.

Priffyrdd – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Eiddo – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Draenio – Sylwadau safonol.

Iechyd yr Amgylchedd – Dim sylwadau.

Gwasanaeth Tân ac Achub – Dim sylwadau.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn tair ffordd. Codwyd rhybudd ger y safle, ysgrifennwyd at ddeiliaid cyfagos a rhoddwyd rhybudd yn y papur newydd lleol. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 5 Gorffennaf 2012. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd yr adran wedi derbyn unrhyw sylwadau.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Y cyd-destun polisi – Mae polisi cynllunio yn annog darparu cyfleusterau cymunedol o fewn neu ar gyrion anheddiadau eraill a'r defnydd cymunedol o ysgolion.

Yr effaith ar yr ardal leol - Ychydig o effaith weledol fydd gan y cynnig, gan y bydd wedi ei leoli o fewn ffiniau'r safle ger adeilad yr ysgol. O'r herwydd, nid wyf yn ystyried y byddai gan y cynnig effaith andwyol ar yr ardal leol.

Effaith ar fwynderau eiddo cyfagos - Nid wyf yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ychwanegol ar fwynderau eiddo cyfagos oherwydd y bydd y cynnig wedi ei leoli o fewn tir cyfredol yr ysgol ger adeilad yr ysgol.

**7. Casgliad**

Mae'r safle'n fwy na digon mawr ar gyfer y cynnig heb iddo edrych fel bod y safle'n cael ei orddatblygu ar draul cymeriad yr ardal leol neu fwynderau deiliad eiddo cyfagos. Yn fy marn i, mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda pholisïau cenedlaethol a lleol a dylid ei gymeradwyo gyda'r amodau isod.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn**.

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(02) Rhaid i ddŵr wyneb a dŵr budr ddraenio o'r safle ar wahân.**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o'r garthffos gyhoeddus.

**(03) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r sustem garthffosiaeth**

**gyhoeddus oni bai y cytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(04) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**(05) Rhaid cael gwared o'r dosbarth symudol a ganiateir yma fel na fydd olion ohono ar y tir erbyn 04/07/2017 ac adfer y tir i'r hyn ydoedd cyn erbyn 04/10/2017 oni bai y cytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm: Ni fyddai caniatâd fel arfer yn cael ei roi ond rhoddwyd ystyriaeth i amgylchiadau arbennig yr ymgeisydd.

**(06) Rhaid ymgymryd â'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 22/05/2012 o dan gais cynllunio rhif. 19LPA959/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**12.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **34LPA164F/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Education and Leisure**
**c/o Mr Barry Allen**
**Property Section**
**Sustainabel Development**
**Isle of Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**LL77 7TW**

Dymchwel y dosbarth symudol presennol ynghyd a chodi dosbarth symudol newydd yn ei lle yn

Demolition of existing mobile classroom together with the erection of a new mobile class room in its place at

Ysgol Corn Hir, Llangefni



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DO)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Ysgol Corn Hir, Llangefni yw safle y cais.

Cais yw hwn i dynu y rovacabin presennol (un ystafell ddosbarth) ynghyd a gosod rovacabin newydd dwy ystafell ddosbarth)

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif fater yw – a yw lleoliad arfaethedig y rovacabin yn dderbyniol o safbwynt ei leoliad a'i ddyluniad.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
31 – Tirwedd
42 – Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D3 – Tirwedd
D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
D29 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli a Datblygu
GP2 – Dylunio
EN1 – Tirwedd

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dwr Cymru – Sylwadau.

Cyngor Tref – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Priffyrdd – Dim argymhelliad.

Draenio – Sylwadau.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

34LPA164B/CC - Gosod dorbarth symudol – Caniatau 13/12/94

34LPA164C/CC – Codi dosbarth symudol – Caniatau 06/03/08

34LPA164D/CC – Estyniad i'r maes parcio – Caniatau 04/06/09

34LPA164E/CC – Creu iard wyneb caled – Caniatau 07/09/09

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae'r caban arfaethedig yw disodli'r caban presennol yn Ysgol Corn Hir.

Mae'r ysgol wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn debygol o gynyddu ymhellach yn y dyfodol (gofod yn caniatáu).

Mae'r rovacabin arfaethedig yn cael ei angen i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol a hefyd i gwrdd ag anghenion ysgol fodern yr 21ain ganrif.

Mae'r rovacabin arfaethedig yn dderbyniol am gyfnod dros dro ac ni ystyrir y bydd y rovacabin arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal neu ar eiddo cyfagos.

**7. Casgliad**

Ystyrir fod lleoliad y rovacabin yn dderbyniol am gyfnod drod dro.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cael gwared o'r dosbarth symudol a ganiateir yma fel na fydd olion ohono ar y tir erbyn 04/07/2017 ag adfer y tir i'r hyn ydoedd cyn erbyn 04/10/2017 onibai y gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm: Ni fyddai caniatâd fel arfer yn cael ei roi ond rhoddwyd ystyriaeth i amgylchiadau arbennig yr ymgeisydd.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatad hwn yn fanwl yn ol y cynllun a gyflwynwyd ar y 10/05/12 o dan cais cynllunio rhif. 34LPA164F/CC**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth

**(03) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(04) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r sustem garthffosiaeth**

**gyhoeddus onibai y gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(05) Rhaid i ddŵr wyneb a dŵr budr ddraenio o'r safle ar wahân.**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o'r garthffos gyhoeddus

**(06) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4)

**12.4** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **41C125A** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Ynys Mon Wind Energy Ltd**
**c/o West Coast Energy Ltd**
**Mynydd Awel**
**Mold Busienss Park**
**Maes Gwern**
**Mold**
**Flintshire**
**CH7 1XN**

Cais llawn ar gyfer gosod anemometer 60m o uchder am gyfnod dros-dro ar dir yn

Full application for the siting of a temporary 60m high anemometer on land at

Bryn Eryr Uchaf, Nr. Pentraeth



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (NJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ar gais yr Aelod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais tua 3km i'r gogledd orllewin o Borthaethwy ac mewn tirwedd amaethyddol. Cais ydyw i godi mast anemometer 60 metr o uchder am gyfnod dros dro o hyd at 3 blynedd.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion gyda'r cais yw – a yw'r cynnig yn dderbyniol mewn termau polisi a'i effaith weledol ac ar y tirwedd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Cyffredinol
Polisi 31 – Tirwedd
Polisi 45 – Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi C7 – Ynni Adnewyddadwy
Polisi D3 – Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi EP18 – Ynni Adnewyddadwy
Polisi EN1 – Cymeriad y Dirwedd

Polisi Cynllunio Cymru (Cyfrol 4)

TAN 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy

CCA: Datblygiadau Ynni Gwynt.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Yn gofyn am i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ar y cais hwn.

Cyngor Cymuned – Yn gwrthwynebu oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu tyrbinau gwynt a byddai'r cynnig hwn yn hwyluso gwaith codi tyrbinau gwynt.

Priffyrdd – gofynnwyd am fanylion y fynedfa arfaethedig. Derbyniwyd manylion ond ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Draenio – sylwadau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – dim yn dymuno gwneud sylwadau ar y cynnig.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd - nid oes unrhyw gyfeiriad at archeoleg yn y cais - gofyn am wybodaeth bellach. Cyflwynwyd adroddiad gwaelodlin ar gyfer Cam 1 y gwaith ac mae GCAG yn cadarnhau ei bod yn annhebygol y bydd codi'r mast yn cael effaith ffisegol ar weddillion archeolegol. Dylid cynnwys y golygfeydd o heneb restredig Bryn Eryr ac Eglwys St Gredifael mewn unrhyw asesiad o'r dirwedd.

Ymgynghorydd Ecolegol – dim sylwadau

Y Weinyddiaeth Amddiffyn – dim gwrthwynebiadau diogelu

Adain Iechyd Amgylcheddol – sylwadau

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Er gwybodaeth i'r Aelodau, cafwyd 230 o lythyrau ac e-byst mewn perthynas â'r cais, yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail:

Effaith weledol ac effaith ar y dirwedd yn cynnwys effeithiau gronnol
Effeithiau ar fwynderau
Effeithiau ar adeiladau rhestredig a gweddillion archeolegol
Effaith ecolegol
Effaith ar dwristiaeth

Mewn ymateb i'r pryderon a leisiwyd ynglŷn â cheisiadau tyrbinau gwynt yn gyffredinol a'r pryder bod y cais am anemomedr yn rhagflaenydd i ddatblygiadau o'r fath ac na ellir, felly, ei ystyried ar ei ben ei hun oddi wrth gynigion yn y dyfodol am ddatblygiadau ynni gwynt, bydd yr Aelodau'n gwybod mai dim ond ychydig o bwysau a ellir ei roddi i'r materion hyn o fewn y broses o wneud penderfyniad ar godi mast cul i gynnal offer mesur y mae'n rhaid ei ystyried ar ei rinweddau ei hun. Gwneir sylwadau hefyd mewn perthynas â Rheoliadau AEA newydd ryddhawyd yn 2011 ynglŷn ag asesu 'prosiectau' a'r angen am AEA lle bo cynigion yn amlwg yn rhan o gynllun ehangach. I egluro, ni ryddhawyd unrhyw Reoliadau newydd yn 2011 ac felly mae Rheoliadau 1999 (fel y'u diwygiwyd), yn parhau fel y Rheoliadau perthnasol. Nid yw codi mast anemomedr ynddo'i hun yn brosiect Atodlen 1 neu Atodlen 2 sydd angen sgrinio ar gyfer AEA ynddo'i hun. Mae barn sgrinio eisoes wedi'i fabwysiadu mewn perthynas â datblygiad tyrbin gwynt (41C103K/SCR). Mae cylchlythyr 11/99 Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) yn dweud ym mharagraff 45 y dylai pob cais am farn sgrinio gael ei ystyried am AEA ar ei rinweddau ei hun ac fe ddylid pwyso a mesur y datblygiad ar sail yr hyn a fwriedir gan y datblygwr. Fe ddywed y cylchlythyr ym mharagraff 46, fodd bynnag, na ddylid ystyried cynigion ar eu pennau eu hunain os ydynt i'w cyfrif yn iawn fel rhan hanfodol o ddatblygiad sylweddol fwy. Fodd bynnag, wrth wneud asesiad o'r fath, rhaid ceisio sefydlu a allai'r datblygiadau arfaethedig fynd yn eu blaenau yn annibynnol, er enghraifft. Nid yw datblygu mast anemomedr yn brosiect Atodlen 1 nac Atodlen 2 ac nid yw'n dod o fewn y Rheoliadau AEA. Fe wnaed y cynnig barn sgrinio mewn perthynas â chodi un tyrbin. Mae angen y mast fel y gellir defnyddio offer mesur a rhaid ei ystyried ar ei rinweddau cynllunio unigol ei hun.

Nid yw'r ymgynghorwyr wedi lleisio unrhyw bryderon ynglŷn ag effeithiau ecolegol.  Mae'n cael ei dderbyn y bydd y cynnig yn cael effaith weledol yn y tymor byr a hefyd effaith ar y dirwedd.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

17C426 – Barn sgrinio i godi 3 tyrbin gwynt gyda diametr rotor uchaf o hyd at 80m ac uchder i flaen y llafn o hyd at 100m ar dir Cae Isaf, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy – dim angen EIA 14.4.11.

17C1462A/SCR – Barn sgrinio i godi 3 tyrbin gydag uchder hwb o hyd at 69m, diametr rotor o 46m ac uchafswm uchder o 115m ar dir i'r gorllewin o Cae Isaf, Pentraeth – tynnwyd yn ôl 2/2/12.

41C125/SCR – Barn sgrinio i godi 3 tyrbin gwynt gydag uchder hwb o hyd at 69m, diametr rotor o hyd at 90m ac uchder i ben y llafn o 115m ar dir yn Cae Isaf, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy – angen EIA 22/2/12.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

Cais yw hwn i godi anemomedr 60 metr o uchder am gyfnod dros dro o hyd at 3 blynedd.

Mae safle'r mast anemomedr arfaethedig o fewn Ardal Cadwraeth Dirwedd 12: Dwyrain Canol Ynys Môn yn Niweddariad Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011, oddeutu 3km o'r AHNE dynodedig.  Tiwb wedi'i galfaneiddio yn amrywio rhwng 15-27cm yw'r trwythur arfaethedig gyda gwifrau 6mm i'w ddal yn ei le.  Nid yw'r anemomedrau eu hunain (o'i gymharu â'r mast) ond yn bethau bychain.  Mae mast telegyfathrebiadau Penmynydd sydd tua 1.2km i'r de orllewin o'r cynnig tua 45.8m o uchder ac 106m uwch lefel y môr.  Mae safle'r cais oddeutu 60m AOD.  Byddai wedi ei leoli o fewn 600m i'r anemometr arfaethedig yn Ty Gwyn (cais cynllunio rhif 41C108M) pe bai'r cynnig hwnnw'n cael ei ganiatau gan yr aelodau.  Fe fyddai yna effaith weledol gronnol ac effaith ar y dirwedd pe bai'r ddau gynnig yn cael ei ganiatáu.

Nid oes unrhyw briffyrdd cyhoeddus na llwybrau cyhoeddus o fewn 750 metr i'r safle ac felly mae'n debyg y bydd golygfeydd y cyhoedd o ardal y strwythur yn rhai o'r mast ei hun ac nid o'r gwifrau cynnal na'r anemomedrau.

Mae yna anheddau o fewn 650m i'r cynnig.  Mae'n debyg y bydd y strwythur i'w weld o nifer o safleoedd cyhoeddus a phreifat yn ymestyn o'r pellter hwn.  Bydd y golygfeydd yn dibynnu ar y topograffi lleol, nodweddion adeiledig a naturiol a hefyd yr amser o'r flwyddyn.

Cesglir, felly y bydd yr effaith a gaiff y mast arfaethedig ar y dirwedd a'r effaith weledol ar yr ardal yn un andwyol ond ddim yn un sylweddol, ond fe ellir newid hynny oherwydd natur dros dro y cynnig.

## 7. Casgliad

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol am gyfnod dros dro, o osod amodau.

## 8. Argymhelliad

**Caniatáu**

**(01)  Rhaid i'r mast anemomedr a ganiateir yma gael ei symud oddi ar y tir erbyn 31 Gorffennaf 2015 gyda'r tir yn cael ei ail-adfer yn ôl i'w gyflwr blaenorol erbyn 31/01/2016.**

Rheswm:  Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi caniatâd am gyfnod tros dro yn unig.

**12.5** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **41LPA916E/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Services (Highways Transportation & Property)**
**c/o Smallholdings Section**
**Cyngor Sir Ynys Mon**
**Swyddfa'r Cyngor**
**Llangefni**
**LL77 7TW**

Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid yn

Full application for the erection of an agricultural shed for the housing of cattle at

Gwyndy, Penmynydd



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(EH)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cyflwynwyd y cais gan y Cyngor ar dir y Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Bwriedir codi sied amaethyddol i gadw anifeiliaid, gwair porthiant a bwydydd anifeiliaid.  Mae lleoliad y sied yn union ger sied arall sydd ar y safle.

Mae'r safle ym mhlwyf Penmynydd ac wedi'i osod yn ôl o'r B5420.  Mae'r eiddo a elwir yn Gwyndy wedi'i osod mewn uned amaethyddol, sied magu moch ac adeiladau allannol gyda'r cyfan ohonynt wedi'u cynnwys ar y gofrestr adeiladau rhestredig statudol.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion i'w hystyried yw'r effaith debygol ar y dirwedd, yr effaith y gall y cynnig ei gael ar yr adeiladau rhestredig o fewn complecs y fferm a hefyd yr angen am sied amaethyddol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN1 – Cymeriad y Dirwedd

TAN 6:  Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy (2010)

Polisi Cynllunio Cymru, Cyfrol 4 (Chwefror 2010)

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim sylwadau

Cyngor Cymuned – Dim gwrthwynebiad
Draenio – Sylwadau

Dwr Cymru – Sylwadau

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais drwy roi hysbyseb yn y wasg leol a rhybudd safle ger y safle. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau croes wedi cael eu derbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

41LPA916/CC: Codi adeilad amaethyddol yn Gwyndy, Penmynydd. Caniatáu – 14.04.10

41LPA916A/CC: Cais i benderfynu a oedd angen caniatâd blaenorol i godi adeilad amaethyddol ar gyfer gwartheg a storio porthiant yn Gwyndy, Penmynydd. Datblygiad a Ganiateir – 17.09.10.

41LPA916B/CC: Addasu adeiladau allanol yn 8 annedd, gosod gwaith trin a gwneud gwaith altro i'r fynedfa yn Fferm Braint, Penmynydd. Caniatáu – 06.07.11

41LPA916C/LB/CC: Caniatâd Adeilad Rhestredig i addasu adeiladau allanol yn 8 annedd a gwneud gwaith altro i'r fynedfa a gosod gwaith trin yn Fferm Braint, Penmynydd. Caniatawyd – 26.09.11.

41LPA916D: Cais llawn i ddileu amod (14) o ganiatad cynllunio 41LPA916B/CC er mwyn gallu cadw'r fynedfa gyfredol yn Gwyndy, Penmynydd. Caniatáu - 05.01.12.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Cyfiawnhad Amaethyddol:** Mae'r daliad yn ymestyn i ryw 113.5 acer. Mae'r tenant presennol yn ffermio'r uned yn fwy dwys na'r tenant blaenorol ac felly dyma'r rheswm am gael mwy o le. Mae ffermio anifeiliaid eisoes wedi'i sefydlu ar y safle a fferm wartheg a defaid yw'r daliad gyda thua 450 o ddefaid yn dod ag ŵyn yn Chwefror / Mawrth a 60 o loeau yn cael eu prynu i mewn. Mae'r fferm i gyd yn laswellt, gyda bêls silwair mawr ar gyfer y gaeaf.

**Y Dirwedd:** Bydd y sied arfaethedig wedi'i lleoli mewn lein gyda'r sied amaethyddol sydd yno yn barod a'r un deunydd lliw fydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn iddynt edrych yr un fath. Bwriedir codi bwnd pridd 1000mm o uchder i sgrinio'r sied o olwg y cyhoedd. Bydd amodau'n cael eu gosod i sicrhau y bydd y bwnd yn cael ei blannu yn y tymor cyntaf fydd ar gael cyn cwblhau'r sied.

**Adeiladau Rhestredig:** Ni fydd lleoli sied ychwanegol yn tarfu ar yr Adeiladau Rhestredig o fewn complecs fferm, oherwydd bod y sied newydd wedi'i lleoli wrth ochr y sied bresennol sydd ymhellach i ffwrdd oddi wrth yr Adeiladau Rhestredig.

**7. Casgliad**

Mae'r egwyddor o ddatblygu i bwrpasau amaethyddol yn cael ei dderbyn yn y polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Ystyrir bod lleoliad y sied arfaethedig yn dderbyniol ac ni fydd yn andwyol i gymeriad yr Adeiladau Rhestredig.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhaid dechrau'r datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn ag ef o fewn pum mlynedd yn dechrau**

**gyda dyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02)  Rhaid defnyddio'r adeilad a ganiateir yma i bwrpasau amaethyddiaeth yn unig, fel sy'n cael ei ddiffinio gan Adran 336(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a dim i unrhyw ddefnydd masnachol neu fusnes o gwbl.**

Rheswm:  Er mwyn sicrhau y bydd y datblygiad bob amser er lles gorau'r diwydiant amaethyddol.

**(03)  Rhaid i'r bwnd arfaethedig a'r manylion plannu fel a ddangosir ar ddyluniad rhif SH 07000/2 gael eu gwneud yn llawn er boddhad yr awdurdod cynllunio lleol yn ystod y tymor plannu cyntaf yn dilyn cwblhau'r datblygiad.  Rhaid cynnal a chadw'r gwaith plannu am gyfnod o 5 mlynedd o'r amser plannu a rhaid i unrhyw goed neu lwyni sy'n marw neu sy'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu sy'n clafychu'n ddifrifol yn ystod y cyfnod hwn gael ei newid yn ystod y tymor plannu nesaf gyda rhai eraill o'r un maint a rhywogaeth i'r rhai y bu raid eu plannu'n wreiddiol, oni bai bod yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoddi ei ganiatâd ysgrifenedig i unrhyw newid.**

Rheswm:  Er mwyn sicrhau edrychiad boddhaol i'r datblygiad.

**(04)  Rhaid i'r datblygiad a ganiateir yma gael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun(iau) gyflwynwyd ar 10.05.12 o dan gais cynllunio rhif 41LPA916E/CC.**

Rheswm:  I osgoi amheuaeth.